Tasg 1

Ar wib!

Teithio i'r gofod

1. Mewn grŵp, defnyddiwch y we i chwilio am fwy o wybodaeth am y digwyddiadau pwysig yma yn hanes teithio i'r gofod. Wedyn, defnyddiwch y tabl isod i grynhoi'r ffeithiau at ei gilydd, gan ychwanegu'r hyn rydych wedi'i ddysgu am Cassini-Huygens, TESS a Virgin Galactic:

ENW'R ROCED	DYDDIAD	GWLAD / PWY?	PWYSIG OHERWYDD ...
Sputnik 1			
Sputnik 2			
Vostok 1			
Vostok 6			
Luna 2			
Enterprise			
Challenger			
Cassini-Huygens			
TESS			
VSS Unity			

2. Casglwch luniau o'r gwahanol rocedi a'u gosod yn nhrefn amser.

- Beth yw'r prif wahaniaeth rhwng y roced gynharaf a'r roced fwyaf diweddar?

Fel unigolion, atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pa un yw eich hoff roced chi? Pam?
- A fyddech chi'n hoffi teithio ar roced i'r gofod? Pam?
- Dychmygwch deithio mewn roced i'r gofod. Wedyn, ysgrifennwch hyd at un ochr tudalen A4 yn disgrifio'ch profiad wrth wibio mewn roced. Cofiwch ddisgrifio:
    beth rydych chi'n gallu gweld
    beth rydych chi'n gallu clywed
    sut rydych chi'n teimlo
    beth sy'n eich poeni chi
    beth sy'n eich gwneud chi'n gyffrous?

3. Beth am gynllunio eich roced ofod ddelfrydol eich hun? Gwnewch lun ohoni a meddyliwch am enw addas iddi. Siwrnai dda!